# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

## DISGRIFIAD SWYDD

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales



# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

## DISGRIFIAD SWYDD

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales



CROESO
Y SEFYDLIAD
Y RÔL
Y PRIF BETHAU I'W CYFLAWNI
NEXT STEPS

# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

## CROESO





Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ac yn rôl y *Rheolwr Datblygu a Chodi Arian.*

Rydym yn byw ar adeg o newidiadau enfawr mewn cymdeithas ac ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, ac rydym yn wynebu heriau amgylcheddol mawr a cholledion parhaus o ran bioamrywiaeth. Gyda'n casgliadau unigryw, ein hystad helaeth, sy'n cynnwys y gerddi botaneg, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las a fferm organig, a rhaglenni arloesol mawr eu heffaith, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mewn sefyllfa bwerus i ennyn diddordeb pobl mewn planhigion, gwyddoniaeth, cadwraeth, a'r byd naturiol ehangach, yn ogystal ag mewn natur ar gyfer iechyd a llesiant cymdeithas.

Yr Ardd yw un o brif atyniadau Cymru o ran bod yn gyrchfan, ac rydym am gysylltu cynulleidfaoedd â phlanhigion a'n gwaith, a herio'r modd y mae pobl yn meddwl ynghylch bioamrywiaeth a natur – ei gorffennol, ei phresennol, a'i dyfodol.

Mae hon yn adeg gyffrous iawn i ymuno â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Gydag agenda a gweledigaeth strategol uchelgeisiol, sy'n cynnwys datblygiadau cyfalaf mawr arfaethedig, mae yma rôl sy'n diffinio gyrfa ar gael i weithiwr proffesiynol uchelgeisiol a thalentog a chanddo brofiad o gynhyrchu incwm trwy strategaethau datblygu a chodi arian.

Bydd effaith eich gwaith yn ffurfio rhan bwysig o'r broses o leoli Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae'r rôl hon yn hanfodol i gynlluniau ein helusen ar gyfer twf a chynaliadwyedd gan ei bod yn gweithio i estyn proffil a chyflawniadau un o gyrchfannau mwyaf eiconig Cymru.

Rydym yn chwilio am unigolyn â sgiliau rhyngbersonol neilltuol, a phrofiad perthnasol o ddatblygu a chodi arian, i weithio gyda'n Hymddiriedolwyr, ein Huwch-arweinwyr a'n Rheolwyr. Yn y rôl hon byddwch yn gyfrifol am feithrin a stiwardio rhoddwyr, yn ogystal ag am gyflawni targedau incwm a wireddir trwy ddefnyddio technegau datblygu a chodi arian effeithiol eraill.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn yn bwysig i ni.

Rydym yn chwilio am unigolyn uchelgeisiol, talentog ac ymroddedig sydd am weithio mewn modd cydweithredol a chwarae rhan hanfodol yn nyfodol ein sefydliad eiconig. Os chi yw'r unigolyn hwnnw, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

**Dr Lucy A. Sutherland**
Y Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

## Y SEFYDLIAD





Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (Yr Ardd) yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig sy'n ymroddedig i ymchwilio i fioamrywiaeth a'i gwarchod, i gynaliadwyedd, i ddysgu gydol oes, ac i ysbrydoli ein hymwelwyr a'r gymuned ehangach.

Cafodd yr Ardd ei hagor yn swyddogol yn y flwyddyn 2000, ac mae'n drysor cenedlaethol ac yn atyniad twristaidd blaenllaw. Mae wrth fodd pawb sy'n ymweld ac yn cael ei thrysori ganddynt. Mae'r Ardd yn denu tua 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn chwarae rôl allweddol yn economi twristiaeth ac ymwelwyr yr ardal. Mae'r Tŷ Gwydr Mawr, a ddyluniwyd gan yr Arglwydd Norman Foster a Phartneriaid, yn un o dirnodau mwyaf eiconig Cymru. Caiff yr Ardd hefyd ei pharchu ledled y byd am y rôl y mae'n ei chwarae o ran gwarchod a diogelu rhai o'r planhigion sydd fwyaf dan fygythiad ar y blaned. Yr Ardd yw'r ardd fotaneg gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei chydnabod gan y Botanic Gardens Conservation International, a dyfarnwyd pob un o'r tair lefel o achrediad cadwraeth iddi, yn cynnwys Ymarferydd Cadwraeth Uwch.

Daeth yr Ardd allan o'r pandemig fel safle a enillodd sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Dewis y Bobl Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) am ei thirwedd hanesyddol a adferwyd, ac yn un sy'n meddu ar enw da uwch o fod yn ganolfan ar gyfer garddwriaeth, gwyddoniaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd.

A hithau'n ganolfan rhagoriaeth mewn cadwraeth ac ymchwil, mae'r Ardd yn darparu prentisiaethau a ariennir, cyfleoedd hyfforddi a rhaglenni ysgolion helaeth. Mae ein casgliadau a'n hymchwil yn rhan o gymuned fyd-eang o erddi botaneg. Mae gennym rôl hanfodol o ran gwneud darganfyddiadau, darparu hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth er budd pobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Ar y cyd â phrifysgolion, Llywodraeth Cymru a phartneriaid anllywodraethol, mae amryw o ddisgyblaethau yn cael eu dwyn ynghyd i wneud darganfyddiadau newydd sy'n ymladd y broses o golli bioamrywiaeth. Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru tua 70 o staff FTE, 250 o wirfoddolwyr a 11,000 o aelodau, ac mae'n gymuned fywiog, angerddol o bobl sy'n ymroddedig i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael effaith.

# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

## Y RÔL



**Teitl:** Rheolwr Datblygu a Chodi Arian

**Sefydliad:** Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (rhif elusen gofrestredig: 1036354)

**Lleoliad:** Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, Cymru

**Cyflog:** £38-40 mil

**Llinell Adrodd:** Y Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Lefel:** Yn eistedd ar y Tîm Rheoli

**Yn gyfrifol am:** Y Swyddog Aelodaeth

**Perthnasoedd Allweddol:** Yr Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwr a'r Uwch-dîm Rheoli, Rhoddwyr, Cyllidwyr a Phartneriaid

Byddwch yn aelod allweddol o'r tîm rheoli ac yn gyfrifol am lunio a chyflawni ein strategaeth datblygu a chodi arian yn yr Ardd, gan gyfrannu at sicrhau portffolio incwm cryf, amrywiol a chynaliadwy a fydd yn ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl a symud yn agosach at fyd sy'n rhoi gwerth ar fioamrywiaeth ac yn ei gwarchod.

Yn rôl y Rheolwr Datblygu a Chodi Arian byddwch yn gyfrifol am feithrin perthnasoedd â rhoddwyr a'u stiwardio, a hefyd am fodloni targedau incwm a wireddir trwy ddefnyddio amrywiol dechnegau i gynhyrchu arian o sawl ffynhonnell, yn cynnwys rhoddion ac arian a godir gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, ffynonellau statudol, y sector corfforaethol a/neu waddolion.

Byddwch yn cefnogi Pwyllgor Cynhyrchu Incwm Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yr Uwch-dîm Arwain a'r Rheolwyr gyda cheisiadau am gyllid gan ddarparwyr grantiau, yn ogystal ag am arian a godir gan roddwyr, noddwyr a ffynonellau cyllid masnachol. Byddwch yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer grantiau a chyllid, yn llunio nodiadau cefndir, ac yn datblygu a rheoli cronfa ddata o ffynonellau ariannu a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau elusennol yr Ardd.

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi datblygiad yr Ardd Fotaneg, a hynny trwy gynghori ac arwain y tîm ynghylch ffynonellau cyllid a'r gwaith o baratoi ceisiadau cyllid i'r safon uchaf posibl. Byddwch hefyd yn nodi mentrau codi arian ac yn eu rhoi ar waith. Byddwch yn cydweithio'n agos â staff ledled ystod o ddisgyblaethau i hyrwyddo mynediad at gronfeydd.

Bydd angerdd dros gynaliadwyedd a chenhadaeth ehangach yr Ardd yn ddymunol iawn. Bydd rhuglder a hyder yn y Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn fantais.

# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

## Y PRIF BETHAU I'W CYFLAWNI

### Strategaeth

- Creu a chyflwyno strategaeth codi arian gynhwysfawr ar gyfer mentrau i arallgyfeirio ffrydiau incwm.
- Datblygu a rheoli portffolio o berthnasoedd allweddol sy'n cefnogi'r gwaith o estyn ein cyrhaeddiad, ein heffaith a'n hincwm.

### Cyflawni

- Nodi, cymhwyso, meithrin, ceisio denu a stiwardio rhoddwyr, partneriaid corfforaethol a chefnogwyr, gan ymgysylltu â nhw i gysoni eu nodau personol â chenhadaeth y sefydliad.
- Arwain ymgyrchoedd codi arian amlsianel, sy'n cynnwys rhoddion gan unigolion, marchnata digidol ac apeliadau uniongyrchol.
- Olrhain ymdrechion codi arian trwy lif cynigion ar gyfer prosiectau, cofnodi llwyddiannau a methiannau, a sicrhau bod gweithgareddau codi arian yn gydlynol ac yn effeithiol.
- Sefydlu a chynnal system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.
- Sicrhau bod prosesau monitro, gwerthuso ac adrodd effeithiol ar waith ar gyfer gweithgareddau datblygu a chodi arian i amlygu cynnydd a chyflawniad.
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â rheoliadau codi arian, y Ddeddf Diogelu Data, a chanllawiau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Sicrhau gwaith cydweithredu cryf â'r Pennaeth Cyllid a'r tîm codi arian i reoli rhagolygon incwm ac adrodd ariannol.
- Datblygu a chynnal digwyddiadau partneriaethau a chodi arian allweddol, a chyflawni gwaith rhagorol o ran stiwardio rhoddwyr.



# MANYLEB Y PERSON

**Wedi'u hamlinellu isod y mae'r meini prawf allweddol a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r rôl.**

| Y meini prawf a'r dystiolaeth a ddisgwylir: | | |
|---|---|---|
| **Addysg/Cymwysterau**<br>**Gwybodaeth/Profiad**<br>**Cymwyseddau/Galluoedd** | **Cais ar bapur** | **Cyfweliad** |
| **Meini Prawf Hanfodol** | | |
| Addysg hyd at lefel gradd mewn busnes, rheolaeth nid-er-elw, marchnata neu gyfathrebu, neu faes cyfatebol, ynghyd â thystiolaeth o lythrennedd a rhifedd lefel uchel. | ✔ | |
| Llwyddiant blaenorol o ran sicrhau cyllid mawr (chwech neu saith ffigur) yn y sector elusennol yn y DU a/neu brofiad cyffelyb mewn meysydd tebyg, megis marchnata neu werthu. | ✔ | ✔ |
| Profiad eglur a llwyddiant blaenorol mewn meithrin perthnasoedd, stiwardiaeth o safon uchel a/neu ymgyrchu mewn perthynas â rhoddion gan unigolion, rhoddwyr preifat, ymddiriedolaethau, sefydliadau a phartneriaethau corfforaethol, ynghyd â rhoddion ar ffurf gwaddolion. | ✔ | ✔ |
| Dealltwriaeth o genhadaeth yr elusen a'i rôl o ran cyfrannu at gymdeithas a diwallu anghenion cymunedol, a diddordeb yn hynny o beth. | | ✔ |
| Profiad o gyflawni ymgyrchoedd codi arian cymhleth ar raddfa fawr sy'n recriwtio, yn ymgysylltu, yn ysbrydoli ac yn cadw rhoddwyr. | ✔ | ✔ |
| Hyfedredd mewn systemau cronfeydd data Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid – sy'n cwmpasu sefydlu, rheoli data a thystiolaeth o sgiliau TG lefel uchel (gan gynnwys pecyn Microsoft Office; y cyfryngau cymdeithasol; e-gylchlythyrau a golygu gwefannau). | ✔ | ✔ |
| Hyfedredd mewn cyllidebu, rheoli cyllid ac olrhain adenillion o fuddsoddi, a dealltwriaeth dda o'r Rheoliad Codi Arian, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth elusennol, ynghyd â'r gallu i'w cymhwyso, lle bônt yn ymwneud â cheisio denu rhoddion a rheolaeth ariannol. | ✔ | |
| Gallu profedig i drefnu a rheoli amser, y gallu i weithio ar gyflymder uchel wrth brosesu gwaith, ynghyd â'r medrusrwydd i reoli sawl tasg a ffrwd waith yn effeithiol, ac i ysgwyddo lefel uchel o gyfrifoldeb/atebolrwydd unigol. | ✔ | ✔ |
| Sgiliau llafar ac ysgrifenedig neilltuol ar gyfer ysgrifennu cynigion ac astudiaethau achos cymhellol sy'n golygu distyllu deunydd cymhleth, yn ogystal â'r gallu i roi cyflwyniadau i unigolion neu bartneriaid corfforaethol a chanddynt werth net uchel. | ✔ | ✔ |
| Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu datblygedig iawn, a gradd uchel o ddealltwriaeth wleidyddol, ynghyd â'r medr i ddylanwadu ar draws pob lefel yn fewnol ac yn allanol, ac ar bobl o gefndiroedd amrywiol, a hefyd i gydlynu â'r bobl hyn. | ✔ | ✔ |
| Y galluogrwydd i ymchwilio i gyfleoedd ariannu newydd a'u nodi, ynghyd ag i lunio strategaethau, dadansoddi data rhoddwyr, a gwerthuso'r perfformiad codi arian. | ✔ | ✔ |
| Dull cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r tîm. | | ✔ |
| **Meini Prawf Dymunol** | | |
| Rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar | ✔ | ✔ |
| Perthnasoedd da sy'n bodoli eisoes ag ymddiriedolaethau a sefydliadau amgylcheddol | | ✔ |
| Tystysgrif neu Ddiploma mewn Codi Arian | ✔ | |
| Aelod o'r Sefydliad Siartredig Codi Arian | ✔ | |

Mae'r Ardd yn cefnogi gweithio hybrid a hyblyg, a bydd yr ymgeisydd yn gweithio o leiaf dri diwrnod yr wythnos yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Disgwylir i'r Rheolwr Datblygu a Chodi Arian weithio ar benwythnosau a chyda'r nos o bryd i'w gilydd i baratoi ar gyfer digwyddiadau a'u cynnal;  bydd amser i ffwrdd ar gael yn gyfnewid.

# RHEOLWR DATBLYGU A CHODI ARIAN

## Y CAMAU NESAF

**Y dyddiad cau yw 02/07/2026. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal cyn gynted ag y bydd yn ymarferol gwneud hynny.**

Mae GFGC yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwahoddir yr ymgeiswyr a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer i gyfweliadau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Bydd yna ddau gam i'r broses gyf-weld.

Mae GFGC yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn yn bwysig i ni. Trwy ddenu pobl i weithio i ni o ystod eang o gefndiroedd amrywiol, gallwn barhau i edrych ar y byd â llygaid ffres a dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym yn cynnig amgylchedd ysgogol a phroffesiynol i weithio ynddo. Mae hwn yn lle anhygoel, ac rydym yn chwilio am staff a all weithio'n unol â'n gwerthoedd – rydym yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn annog creadigrwydd, rydym wedi'n cysylltu, ac rydym yn rhoi gwerth ar dystiolaeth.

Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at:

Dr Lucy A. Sutherland, Y Cyfarwyddwr
Lucy.Sutherland@gardenofwales.org.uk
01558 667106

Dylai ceisiadau, ar ffurf llythyr eglurhaol a CV, ddangos yn glir y modd yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol, a dylid eu hanfon trwy e-bost at HRManager@gardenofwales.org.uk

Nodwch na fyddwn yn cysylltu â chanolwyr nes bod cynnig wedi'i wneud i ymgeisydd llwyddiannus.

**Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Ceisiadau:**
Rydym am ddeall eich diddordeb gwirioneddol yn y rôl hon, ac am i'ch cais ysgrifenedig adlewyrchu eich arddull gyfathrebu eich hun yn gywir. Gall ceisiadau sy'n dibynnu gormod ar offer deallusrwydd artiffisial ymddangos yn generig a bod yn ddiffygiol o ran y manylion y mae arnom eu hangen i asesu eich sgiliau a'ch profiad. Nid ydym yn defnyddio deallusrwydd artiffisial yn rhan o'n proses recriwtio.




4X